Profion Rhifedd Cenedlaethol

# RHESYMU
# 5CRh14SA

# Y sgript ar gyfer y prawf rhesymu

119459

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwybodaeth i weinyddwyr

Yn y llyfryn hwn, mae'r sgript y byddwch yn ei darllen i'r dysgwyr wrth gyflwyno'r deunyddiau ysgogi yn union cyn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Mae'r deunyddiau ysgogi yn elfen hollbwysig o'r prawf am eu bod yn galluogi dysgwyr i ddeall cyd-destun y set gyntaf o gwestiynau. Maen nhw hefyd yn golygu bod llai o waith darllen i'r dysgwyr a'u bod yn poeni llai am y prawf.

Mae'n **hanfodol** felly eich bod yn paratoi ymlaen llaw ar gyfer y prawf drwy fynd drwy'r sgript yn fanwl, ynghyd â'r cyflwyniad sydd ar y sleidiau (ar y ddisg gyfrifiadurol). **Rhaid** i chi sicrhau eich bod yn deall y cyflwyniad a'ch bod yn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn hyderus. Os na fydd y dysgwyr yn deall, mae perygl mawr iddyn nhw fethu ag ymateb yn iawn i gwestiynau'r prawf.

### *Cyn gweinyddu'r cyflwyniad*

Darperir gwybodaeth fanwl am weinyddu'r cyflwyniad yn y *Canllawiau gweinyddu profion* sydd gyda'r prawf ac yn y *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014* ar wefan Dysgu Cymru dysgu.cymru.gov.uk

Yn union cyn i chi ddangos y cyflwyniad i'r dysgwyr, gwnewch yn siŵr bod:

- pawb yn gallu gweld a chlywed, a'u bod yn canolbwyntio ar yr hyn rydych chi'n ei gyflwyno
- yr ysgol wedi gwneud trefniadau mynediad ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd angen trefniadau o'r fath
- y dechnoleg yn gweithio.

### *Gweinyddu'r cyflwyniad*

Wrth dreialu'r profion mewn ysgolion, daeth yn amlwg ei bod yn hollbwysig i'r cyflwynydd sicrhau bod y dysgwyr yn deall y cyd-destunau a'u bod yn frwdfrydig yn eu cylch.


Mae eich rôl chi felly yn bwysig iawn i'ch dysgwyr. Felly, os gwelwch yn dda:




- gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiddorol! Er mwyn denu sylw a diddordeb y dysgwyr, mae angen iddyn nhw weld eich bod chi, y cyflwynydd, yn hyderus ac yn mwynhau'r deunyddiau. Defnyddiwch oslef eich llais a byddwch yn frwdfrydig wrth gyflwyno. Gallwch (fel sy'n briodol ar gyfer y grŵp oedran) actio'r rhannau, defnyddio gwahanol leisiau neu ddefnyddio unrhyw fethodoleg briodol i sicrhau bod y dysgwyr yn deall y cyd-destunau
- gofynnwch gwestiynau i ddal sylw'r dysgwyr. Er enghraifft, pe bai'r cyd-destun yn ymwneud â rheolau rygbi, dechreuwch drwy ofyn iddyn nhw pwy sy'n hoffi rygbi a phwy sy'n gwybod unrhyw beth am y rheolau. Ceisiwch sicrhau eu bod yn ymateb i'r cyd-destun, a'u bod yn awyddus i gael gwybod rhagor
- gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys pob elfen yn y sgript – maen nhw yno am reswm da
- gwnewch yn siŵr eu bod yn deall (yn weledol, ac, os bydd angen, drwy holi'r dysgwyr) ac wedyn ymhelaethwch os bydd hynny'n briodol. Fodd bynnag, os byddwch yn ymhelaethu, ni ddylech ar unrhyw adeg ymestyn y drafodaeth neu'r sylwebaeth am y cynnwys rhifol y tu hwnt i'r hyn sydd yn y cyflwyniad, oherwydd gallai hyn helpu'r dysgwyr gyda chwestiynau'r prawf. Yn y sgript, efallai y dywedir wrthych pa faterion na ddylech eu trafod (mae'r holl wybodaeth hon mewn print italig – yn amlwg, ni ddylech ddarllen y darnau hyn ar goedd).

| |
|---|
| Ni allwch helpu'r dysgwyr mewn unrhyw ffordd a allai ddylanwadu ar eu perfformiad yn y prawf. |

## Cyflwyniad i'w ddangos i'r dysgwyr cyn iddyn nhw wneud cwestiwn 1

Dylech ddarllen y testun yn y blychau ar y dde (ond nid y testun mewn print italig) i'r dysgwyr. Gallwch ddefnyddio eich geiriau eich hun, neu roi rhagor o esboniad am y cyd-destunau, os oes angen. Fodd bynnag, ni ddylech helpu'r dysgwyr gyda'r rhifedd sydd i'w asesu.

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 1 |  | *(Cadwch y sleid hon ar y sgrin nes eich bod yn barod i ddechrau'r cyflwyniad.)* |
| Sleid 2 |  | Dyma grŵp o blant Blwyddyn 5 yn gweithio gyda'i gilydd. Maen nhw'n dylunio ac yn gwneud gêm.<br>Enw'r gêm yw 'Trwbl Dwbl'. Eu fersiwn nhw o gêm o'r enw dartiau yw hon. |
| Sleid 3 |  | Oes rhai ohonoch chi wedi gweld bwrdd dartiau? Wel, mae eu bwrdd nhw *(pwyntiwch)* yn debyg i fwrdd dartiau, ond mae'n symlach er mwyn i blant o bob oed allu chwarae.<br>I chwarae'r gêm, rydych yn taflu tri dart at y bwrdd. Os bydd dart yn glanio ar ran las y bwrdd *(pwyntiwch)* byddwch yn sgorio'r nifer hwnnw o bwyntiau.<br>Gadewch i ni edrych ar enghraifft . . . |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 4 |  | Mae'r cylchoedd du yn dangos lle mae'r tri dart wedi glanio. Felly mae'r dart hwn *(pwyntiwch)* yn cael sgôr o 20. Beth yw sgoriau'r dartiau eraill? *(3 a 7)*<br><br>Felly, beth yw cyfanswm y sgôr ar gyfer pob un o'r tri dart? Dyna ni, 30 oherwydd 20 + 3 + 7 = 30<br><br>*(Noder y gallwch ddefnyddio'r bwrdd gwyn i ddangos y gwaith cyfrifo hwn ac unrhyw waith cyfrifo arall yn y sgript.)*<br><br>Mae'r rhan goch hon *(pwyntiwch)* o'r bwrdd dartiau'n arbennig. Os bydd eich dart yn glanio yn yr adran goch yma, byddwch yn sgorio dwbl y rhif. |
| Sleid 5 |  | Felly faint yw sgôr y dart yma *(pwyntiwch at 20)*? Dyna ni, mae yn yr adran goch, felly mae'n sgorio 40 oherwydd dwbl 20 yw 40. Beth yw sgoriau'r dartiau eraill? Pam? *(Dwbl 2 yw 4, dwbl 1 yw 2)*<br><br>Beth yw'r sgôr ar gyfer y tri dart gyda'i gilydd? Da iawn, 46 oherwydd dwbl 20 + dwbl 2 + dwbl 1 = 46 |
| Sleid 6 |  | Gyda'r person nesaf atoch chi, cyfrifwch y sgoriau ar gyfer y tri dart hyn.<br><br>*(Anogwch y dysgwyr i drafod, a chytuno mai'r sgôr ar gyfer y tri dart yw 64 oherwydd bod dwbl 15 yn ymddangos ddwywaith a bod yna 4)*<br><br>Fel sy'n wir am unrhyw gêm, mae yna reolau. Felly, gadewch i ni edrych ar y rheolau ar gyfer y gêm Trwbl Dwbl. |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 7 | **RHEOLAU**<br>• Taflwch dri dart bob tro a chyfrifwch eich sgôr<br>• Adiwch bob sgôr gyda'i gilydd<br>• I ennill, rhaid i gyfanswm eich sgôr fod yn **350** yn union | *(Darllenwch y rheolau ac wedyn eglurwch y rheol olaf drwy ddweud . . . )*<br>Er mwyn ennill, rhaid i gyfanswm eich sgôr fod yn 350 yn union, dim mwy a dim llai. |
| Sleid 8 | **RHEOLAU**<br>• Taflwch dri dart bob tro a chyfrifwch eich sgôr<br>• Adiwch bob sgôr gyda'i gilydd<br>• I ennill, rhaid i gyfanswm eich sgôr fod yn **350** yn union<br>ond . . .<br>**rhaid i chi orffen y gêm gyda dwbl** | Ond . . . mae'r plant wedi gwneud y gêm yn fwy anodd . . . rhaid i chi orffen y gêm gyda dwbl.<br>Wrth gwrs, gallwch daflu dyblau gydag unrhyw un o'ch dartiau; byddwch yn sgorio'n uwch felly ac yn cyrraedd 350 yn gyflymach. Ond rhaid i chi orffen gyda dwbl. A dyna pam mae'r gêm yn cael ei galw'n . . . |
| Sleid 9 | **RHEOLAU**<br>• Taflwch dri dart bob tro a chyfrifwch eich sgôr<br>• Adiwch bob sgôr gyda'i gilydd<br>• I ennill, rhaid i gyfanswm eich sgôr fod yn **350** yn union<br>ond . . .<br>**rhaid i chi orffen y gêm gyda dwbl**<br>**Trwbl Dwbl!** | . . . Trwbl Dwbl!<br><br>Nawr, rydych chi'n mynd i ateb ychydig o gwestiynau am y gêm Trwbl Dwbl.<br>Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi yn eich llyfryn. Ar ôl i chi orffen, mae rhagor o gwestiynau i chi eu hateb.<br>Cofiwch y bydd angen i chi ddefnyddio eich cyfrifiannell ar gyfer rhai o'r cwestiynau, ac mae'n bwysig iawn eich bod yn dangos eich gwaith bras er mwyn i rywun arall allu deall beth rydych chi'n ei wneud a pham.<br>Mae gennych chi 30 munud. |

© Hawlfraint y Goron 2014